

# Cymwys ar gyfer y dyfodol

## Crynodeb o'r canfyddiadau

---

Cyflwynwyd i Cymwysterau Cymru gan Ymchwil  
Arad ac SCYA

Mehfin 2020



## Cynnwys

1. Ynglŷn â'r ymgynghori a'r dadansoddi .....	3
2. Crynodeb o'r themâu trosfwaol .....	4
3. Egwyddorion i lunio'r cymwysterau a gynigir yn y dyfodol .....	5
4. Cymwysterau TGAU addas ar gyfer y dyfodol .....	12
5. Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach.....	15
6. Barn ar yr Asesiad Effaith Integredig .....	17
Effeithiau rheoleiddiol.....	17
Effeithiau ar y Gymraeg .....	18
Effeithiau ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig .....	20
7. Sylwadau pellach .....	21

# 1. Ynglŷn â'r ymgynghori a'r dadansoddi

---

Dyma grynodeb byr o'r dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad cyhoeddus Cymwysterau Cymru, 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', a gynhaliwyd rhwng 18 Tachwedd 2019 a 7 Chwefror 2020. Nod y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yw tanategu gwaith Cymwysterau Cymru o ail-lunio cymwysterau i ategu'r cwricwlwm newydd i Gymru.<sup>1</sup>

Mae'r ddogfen ymgynghori lawn 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig [ar gael ar-lein ar wefan Cymwysterau Cymru](#).<sup>2</sup>

Derbyniodd Cymwysterau Cymru 667 o ymatebion i'r ymgynghoriad, er nad atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn.

Cynhaliodd Arad ac SCYA ddadansoddiad o'r holl ymatebion ar ran Cymwysterau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- dadansoddi ymatebion i'r 8 'cwestiwn caeedig', lle'r oedd yn ofynnol i ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion, neu effaith ddisgwyliedig y cynigion; ac
- adolygu ymatebion i'r 15 cwestiwn penagored (cwestiynau a oedd yn caniatáu i ymatebwyr ysgrifennu sylwadau yn rhydd) a chategoreiddio'r wybodaeth hon yn themâu troswaol.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb byr o ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn. Mae canfyddiadau manwl ar gael yn adroddiad llawn dadansoddiad yr ymgynghoriad.

**Trwy gydol yr adroddiad, tynnir y themâu a'r pwyntiau a gyflwynir o sylwadau a wnaed gan ymatebwyr ac nid ydynt yn cynrychioli barn awduron yr adroddiad na Cymwysterau Cymru.** Mae'r adroddiad felly'n cynrychioli barn ymatebwyr ni waeth pa mor gywir y mae ymatebwyr wedi dehongli cynigion Cymwysterau Cymru neu a yw eu barn yn adlewyrchu'r cyd-destun cymwysterau cyfredol yn gywir.

Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu crynhoad o'r ystod eang o themâu a nodwyd gan ymatebwyr, a gyflwynir fel amrywiaeth o negeseuon allweddol i Cymwysterau Cymru eu hystyried. O'r herwydd, nid yw'r adroddiad yn cyflwyno niferoedd na chyfrannau'r ymatebwyr a gododd bob thema.

---

<sup>1</sup> Mae gwybodaeth am [y cwricwlwm newydd i'w gweld ar-lein](#).

<sup>2</sup> <https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol/cam-1---llunio-ein-dull/>

## 2. Crynodeb o'r themâu trosfwaol

---

Er bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar wahanol bynciau, nododd y dadansoddiad rai themâu trosfwaol a gododd ymatebwyr ar draws sawl cwestiwn.


Trwy gydol yr ymgynghoriad, dywedodd ymatebwyr y canlynol yn aml:

- Mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cymwysterau sy'n **adlewyrchu ethos** y cwricwlwm newydd, a chymwysterau sy'n cefnogi **dilyniant llyfn** i addysg ôl-16.
- Mae'n bwysig bod unrhyw gymwysterau newydd yn parhau i fod yn **gyfredol ac y gellir eu cymharu** â chymwysterau eraill yng Nghymru a thu hwnt.
- Mae cymwysterau a'r cwricwlwm wedi'u cydblethu, a rhaid i'r **diwygio ddigwydd yr un pryd**. Fodd bynnag, mae'r system addysg yn wynebu cyfnod o newid sylweddol, gyda gweithwyr addysg proffesiynol eisoes yn delio â **llwythi gwaith cynyddol**.
- Dylid defnyddio amrywiaeth o **ddulliau asesu** ar draws y gyfres o gymwysterau sydd ar gael.
- Mae angen cynnal **dewis priodol o gymwysterau**, er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n diwallu anghenion amrywiaeth o wahanol ddysgwyr.

### 3. Egwyddorion i lunio'r cymwysterau a gynigir yn y dyfodol

Dylai Cymwysterau Cymru gymryd camau i sicrhau bod cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, yn cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru a'i gefnogi.

I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?



n=655

3

Atebodd cyfanswm o 655 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd dros 70% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd cyfanswm o 363 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig.

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor oherwydd eu bod yn teimlo:

- Dylai cymwysterau a'r cwricwlwm gysylltu'n agos â'i gilydd i **sicrhau system addysg gydlynol ac integredig**. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau:
  - bod nodau'r cwricwlwm newydd yn cael eu gwireddu'n llawn, oherwydd gallai cymwysterau digyswllt gael effaith negyddol ar ymgysylltiad y proffesiwn addysg â'r cwricwlwm newydd;
  - dulliau addysgu a dysgu parhaus ar draws Cyfnodau Allweddol; a
  - bod cymwysterau'n adlewyrchu'r egwyddorion sy'n sail i ddyluniad y cwricwlwm newydd, fel y pedwar diben.
- Byddai cysylltu cymwysterau'n uniongyrchol â'r cwricwlwm newydd **yn ddefnyddiol ac yn glir i ddysgwyr**.
- Byddai'r egwyddor hon yn sicrhau bod cymwysterau'n helpu i **baratoi dysgwyr i symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch ac i yrfaoedd yn y dyfodol**.


<sup>3</sup> Nid yw'r canrannau a gyflwynir yn y graff hwn yn dod i gyfanswm o 100% yn union oherwydd bod y canrannau'n cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

Nododd ymatebwyr hefyd syniadau neu faterion i'w hystyried ynglŷn â'r egwyddor hon, fel:

- Anhawster sicrhau bod cymwysterau'n cefnogi nodau'r cwricwlwm newydd, oherwydd mae'r **system atebolrwydd** gyfredol yn rhoi gormod o bwyslais ar gymwysterau a gymerir yn 16 oed.
- **Materion ymarferol**, fel hyfforddiant addas i ymarferwyr a phryderon ynghylch gallu'r sector addysg i addasu i ddiwygiadau cydamserol ar raddfa fawr.
- Yr angen i gymryd **gofal i sicrhau bod cyfres eang a chytbwys o gymwysterau** ar gael i ddysgwyr o bob cefndir, diddordeb a gallu.
- Y dylid cynnal elfennau craidd y strwythur cymwysterau cyfredol, fel cymwysterau sy'n asesu **gwybodaeth pwnc-benodol**.
- Rhaid i gymwysterau fod yn **debyg** i'r rhai a gynigir y tu allan i Gymru a chael eu **derbyn** gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a chyflogwyr.
- Bod yna bynciau addysgol allweddol – fel maes dysgu a phrofiad lechyd a Lles – y mae'n rhaid rhoi **digon o bwys** iddynt o fewn y cymwysterau a gynigir.

**Dylai Cymwysterau Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?**



4

Atebodd cyfanswm o 633 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd 80% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd cyfanswm o 341 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig.

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor oherwydd eu bod yn teimlo:

- Dylai dysgwyr gael **cyfle i ddewis** yr iaith y maent yn ymgymryd â'u cymwysterau ynddi.
- Mae gan ddysgwyr hawl i gael mynediad at gymwysterau yn Gymraeg a Saesneg, fel egwyddor graidd **cydraddoldeb a chynhwysiant**. Oni bai bod cymwysterau ar gael yn Gymraeg, gallai dysgwyr sy'n siarad Cymraeg **fod dan anfantais**.
- Mae darparu cymwysterau yn Gymraeg a Saesneg yn cyd-fynd â **strategaethau a pholisiau cenedlaethol allweddol** a gallai hefyd **gefnogi a chodi proffil y Gymraeg** yn fwy cyffredinol.
- Byddai cymwysterau yn Gymraeg a Saesneg yn gwella **cyfleoedd gyrfa a sgiliau Cymraeg**.

Nododd ymatebwyr hefyd syniadau neu faterion i'w hystyried ynglŷn â'r egwyddor hon, fel:

- Byddai'r angen i gynnal **ystod addas o gymwysterau** yn hanfodol os yw'r egwyddor hon yn cael ei mabwysiadu.


<sup>4</sup> Nid yw'r canrannau a gyflwynir yn y graff hwn yn dod i gyfanswm o 100% yn union oherwydd bod y canrannau'n cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

- Credai ymatebwyr y byddai heriau'n gysylltiedig â mynnu bod **cyrff dyfarnu y tu allan i Gymru** yn sicrhau bod cymwysterau a gymerir yn 16 oed ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Teimlai ymatebwyr y gallai'r egwyddor hon **roi dysgwyr dan anfantais trwy gyfyngu ar eu dewisiadau** os tynnir cymwysterau Saesneg yn unig o'r cynnig.
- Pryder bod ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gadw at yr egwyddor hon yn debygol o fod yn **rhy ddrud** ac wedi'i gyfyngu gan **arbenigedd annigonol yn y Gymraeg** – fel arbenigedd pwnc-benodol – o fewn cyrff dyfarnu.
- **Materion ymarferol**, yn enwedig sut i reoli eithriadau i'r egwyddor hon.
- **Yr angen i sicrhau y byddai deunyddiau ategol** hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.



**Dylai Cymwysterau Cymru reoli'n agosach yr ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gall canolfannau eu cynnig i bobl ifanc 16 oed i sicrhau ei bod yn deg ac yn gydlynol.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?**



5

Atebodd cyfanswm o 620 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd 80% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd cyfanswm o 308 sylwadau ysgrifenedig.

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor oherwydd eu bod yn teimlo:

- Mae'n bwysig cynnal **dewis priodol o gymwysterau** sy'n **gweddu i anghenion amrywiol dysgwyr** mewn ffordd deg.
  - Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig **cynnal ac ehangu argaeledd cymwysterau galwedigaethol**.
  - Teimlai ymatebwyr y byddai angen **amrywiaeth o ddulliau asesu** ochr yn ochr ag arholiadau i sicrhau cynwysoldeb i'r holl ddysgwyr.
- **Dylai cymwysterau yn 16 oed alinio â chyfnodau addysgol cynharach a dysgu ôl-16** mewn modd cydlynol i alluogi dilyniant llyfn i ddysgwyr.
- Mae gwerth neu **'ddefnydd cyfredol'** canfyddedig **cymwysterau ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysgu ôl-16** yn bwysig.
- Dylai'r gyfres o **cymwysterau fod â'i hansawdd wedi'i sicrhau, a chael ei rheoli neu ei goruchwyllo** gan sefydliad canolog.
  - Teimlai ymatebwyr y byddai hyn yn helpu i **osgoi dyblygu** yn y gyfres o gymwysterau a gynigir.
- Mae angen ystyried sut y gellir defnyddio **mesurau atebolrwydd ysgolion** i leihau'r cymhelliant i ganolfannau ddewis cymwysterau yr ystyrir eu bod yn 'haws'.

<sup>5</sup> Nid yw'r canrannau a gyflwynir yn y graff hwn yn dod i gyfanswm o 100% yn union oherwydd bod y canrannau'n cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

Nododd ymatebwyr hefyd syniadau neu faterion i'w hystyried ynglŷn â'r egwyddor hon, fel:

- **Canolfannau sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch pa gymwysterau** y maen nhw'n eu cynnig i'w dysgwyr.
- **Na ddylid cwtogi ar y dewis o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr** gan y gallai hyn roi rhai dysgwyr dan anfantais, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n llai abl.
- Risg ganfyddedig y gallai diwygiadau **arwain at gymwysterau'n colli eu 'defnydd cyfredol'**, yn enwedig gyda darparwyr addysg bellach ac addysg uwch a chyflogwyr y tu allan i Gymru.

**A oes unrhyw egwyddorion eraill y credwch y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa gymwysterau i'w gwneud yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru?**

**Esboniwch eich ateb.**

Cyflwynodd cyfanswm o 235 o ymatebwyr sylwadau yn ymwneud â'r cwestiwn hwn.


Nododd ymatebwyr egwyddorion neu ystyriaethau pellach, gan gynnwys pwysigrwydd:

- Cynnal ac ehangu **argaeledd cymwysterau galwedigaethol**.
- Sicrhau bod cyflogwyr a darparwyr addysg ôl-16 y tu allan i Gymru yn deall, yn cydnabod ac yn parchu cymwysterau a gynigir yng Nghymru.
- Sicrhau bod cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn rhan o **lwybr dilyniant llyfn** rhwng Cyfnod Allweddol 3 ac addysg ôl-16.
- Cynnal **amrywiaeth briodol o ddulliau asesu**.
  - Soniwyd yn aml am hyn fel egwyddor gan ymatebwyr a nododd fod gwahanol ddulliau asesu yn addas ar gyfer gwahanol bynciau.
- Sicrhau bod cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn arfogi dysgwyr â **sgiliau ehangach**.
- Ystyried **pwysau ariannol** a **gwerth am arian** wrth wneud penderfyniadau ar gyllido cymwysterau.
- **Egwyddorion eraill**, gan gynnwys yr angen i ystyried lles dysgwyr, hawliau plant, anghenion y farchnad lafur leol, atebolrwydd ysgolion a mesurau perfformiad ac osgoi dyblygu.

## 4. Cymwysterau TGAU addas ar gyfer y dyfodol

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylid cadw'r enw TGAU ar gyfer y cymwysterau wedi'u hailddylunio a fydd yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?



Atebodd cyfanswm o 592 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd 77% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd cyfanswm o 294 sylwadau ysgrifenedig.

Dywedodd ymatebwyr a oedd o blaid cadw'r enw TGAU fod cymwysterau TGAU yn **gymwysterau cydnabyddedig** sydd â **defnydd cyfredol** ymhlith dysgwyr, cyflogwyr, sefydliadau addysg, a rhieni a gofawyr. Roeddent yn credu:

- gallai unrhyw newid achosi dryswch ac **ansfydlogrwydd diangen** i'r rhanddeiliaid hyn;
- dylid cynnal y **safonau a'r trylwyredd** sy'n gysylltiedig â chymwysterau TGAU a byddai'n well cyflawni hyn trwy gadw'r enw TGAU; ac
- ei bod yn bwysig cadw **cludadwyedd** cymwysterau TGAU a bod y cymhwyster yn cael ei gydnabod y tu allan i Gymru, gan nodi bod ymdrechion blaenorol i ddatblygu brandiau penodol i Gymru (fel Bagloriaeth Cymru) wedi profi'n heriol.

Roedd ymatebwyr eraill a gredai y dylid cadw'r enw TGAU yn **cydnabod yr achos dros ddiwygio**. Roeddent yn credu:

- dylid diwygio **fformat** cymwysterau TGAU i ddefnyddio ystod o wahanol **ddulliau asesu**;
- dylid newid y **cynnwys** hefyd i **adlewyrchu newidiadau yn y cwricwlwm** a dylid cael aliniad agosach rhwng cynnwys y cwrs ac **anghenion economaidd y dyfodol**; a
- dylid cymryd cymwysterau ar yr **oedran mwyaf priodol** i ddysgwyr.

Roedd ymatebwyr o blaid newid yr enw yn honni y dylid **diwygio cymwysterau i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd**, sy'n ddatblygiad newydd radical i Gymru.

- Roeddent yn teimlo y gallai cadw cymwysterau TGAU roi'r argraff anghywir bod y newidiadau i'r cwricwlwm **yn berthnasol hyd at 14 oed yn unig**.
- Gallai hefyd **barhau â'r arfer o gymharu Cymru â Lloegr yn bennaf**.
  - Yn eu barn nhw, roedd hyn yn ddi-fudd o ystyried eu pryderon ynghylch dulliau a gyflwynwyd yn Lloegr.
  - Roeddent yn dadlau bod cymwysterau TGAU **eisoes wedi ymwahanu i raddau**.

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i gymwysterau TGAU newid i gyflawni ein gweledigaeth ac i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?**

**Esboniwch eich ateb.**


Cyflwynodd cyfanswm o 354 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r cwestiwn hwn.

- Roedd rhai ymatebwyr o blaid y sefyllfa bresennol oherwydd eu bod yn teimlo **nad oedd yr achos dros newid wedi'i wneud.**
  - Roeddent yn **pryderu am ddefnyddio dewisiadau amgen i arholiadau diwedd cwrs a gaiff eu marcio yn allanol**, yn bennaf ar sail trylwyredd a'r angen am safbwyntiau allanol i sicrhau safoni a didueddrwydd.
  - Fe wnaethant bwysleisio'r angen i barhau i **asesu gwybodaeth dysgwyr.**
  - Roeddent yn credu y dylai unrhyw gymwysterau TGAU newydd neu ddiwygiedig **baratoi dysgwyr** yn ddigonol i symud ymlaen i astudio pynciau yn 16-18 oed a hefyd mewn addysg uwch.
- Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill o'r farn **bod angen newid oherwydd:**
  - byddai'n galluogi defnyddio **ystod o ddulliau** i asesu dysgwyr;
  - gellid **lleihau** faint o asesu a geir lle mae **llawer yn y fantol** trwy arholiadau;
  - dylai arholiadau ganolbwyntio mwy ar **asesu sgiliau dysgwyr** (yn hytrach na gwybodaeth); a
  - gellid defnyddio **arfer da** wrth asesu **dysgu galwedigaethol** yn ehangach.
- Amlygodd ymatebwyr yr angen i **ystyried dysgwyr anabl a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol** trwy sicrhau bod cymwysterau'n gynhwysol.
- Roedd ymatebwyr yn **rhanedig** ynghylch a ddylai arholiadau barhau i asesu dysgwyr **mewn pynciau unigol**, neu ar sail **meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm**, neu trwy **gyfuniad** o'r ddau dull.
- Credai ymatebwyr fod angen **cynyddu statws cymwysterau galwedigaethol** a sicrhau cydraddoldeb â chymwysterau academaidd traddodiadol o ran parch.

## 5. Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylai cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd) fod yn rhan o'r cymwysterau a gynigir i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?



Atebodd cyfanswm o 573 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd 62% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig. Rhoddodd cyfanswm o 297 sylwadau ysgrifenedig.

- Dywedodd ymatebwyr fod angen ystyried unrhyw asesiad o sgiliau ehangach yn ofalus o ran y **sgiliau sydd i'w dangos** a sut y dylid eu **hasesu**. Pwysleisiodd ymatebwyr:
  - ei bod yn bwysig bod gan asesiad sy'n seiliedig ar sgiliau **ddefnydd cyfredol** ymhlith yr holl randdeiliaid a'i bod yn amlwg sut y mae'n **ychwanegu gwerth** at y cwricwlwm;
  - dylid **hyrwyddo** unrhyw gymhwyster sgiliau **yn effeithiol** gyda rhesymeg glir ynghylch ei werth, ei bwrpas, ei gynnwys a sut y caiff ei asesu;
  - mae angen **dysgu o brofiad Bagloriaeth Cymru**, y credai rhai nad oedd wedi sicrhau defnydd cyfredol; ac
  - **ni ddylid ystyried** bod y cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau **yn llai pwysig** neu'n llai trylwyr na chymwysterau pwnc.
- Dywedodd ymatebwyr y dylai cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos **y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd, astudio a chyflogaeth yn y dyfodol**. Ni ddylid ei strwythuro'n rhy anhyblyg a dylai fod digon o **hyblygrwydd** o ran sut mae'n cael ei ddarparu a'i asesu.
- Roedd gwahanol safbwyntiau ynghylch a ddylid asesu sgiliau ehangach **o fewn pynciau cwricwlwm** neu fel **cymhwyster arwahanol**.
- Cododd sylwadau eraill bryderon ynghylch **cludadwyedd a statws** (yn enwedig yn Lloegr) unrhyw gymhwyster ar sail sgiliau y mae dysgwyr yng Nghymru yn unig yn ei gyflawni.

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 newid i gyflawni ein gweledigaeth a chefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?**

**Esboniwch eich ateb.**

Cyflwynodd cyfanswm o 221 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r cwestiwn hwn.

Pwysleisiodd ymatebwyr fod **gweithredu o ansawdd uchel** ac eglurder ynghylch **cynnwys** yn hanfodol ar gyfer cyflwyno cymhwyster yn seiliedig ar sgiliau yn llwyddiannus. I wneud hynny'n effeithiol, credai ymatebwyr:

- bod angen cyfleoedd **datblygiad proffesiynol** cychwynnol a pharhaus o ansawdd uchel ar ymarferwyr;
- dylai elfennau fel **sgiliau meddal, datrys problemau, sgiliau ar gyfer bywyd fel oedolyn a sgiliau ymarferol** fod yn amlwg mewn cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau; a
- dylai'r **dull trawsgwricwlaidd** sy'n sail i'r cwricwlwm newydd gael ei adlewyrchu yn y ffordd yr eir ati i ddatblygu cymhwyster yn seiliedig ar sgiliau.



## 6. Barn ar yr Aseiad Effaith Integredig

### Effeithiau rheoleiddiol


- a) A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol pellach a allai ddeillio o unrhyw un o'n cynigion? Os felly, esboniwch eich ateb.
- b) A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effaith reoleiddiol unrhyw un o'n cynigion? Os felly, esboniwch eich ateb.
- c) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar effaith reoleiddiol y cynigion hyn? Os felly, esboniwch eich ateb.

Rhoddodd cyfanswm o 45 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â chwestiwn a), 35 mewn perthynas â chwestiwn b) a 18 mewn perthynas â chwestiwn c). Felly, mae'n bwysig nodi bod y themâu canlynol wedi'u codi gan nifer gyfyngedig iawn o ymatebwyr ac mae ymatebion i'r tri chwestiwn wedi'u cyfuno i'w cyflwyno isod.

- Nododd ymatebwyr ei bod yn bwysig ystyried effaith y cynigion ar grwpiau o **ddysgwyr heb gynrychiolaeth ddigonol** (fel dysgwyr anabl).
- Codwyd pryder y gallai **bylchau yn y ddarpariaeth** ymddangos o bosibl os caiff cymwysterau eu dileu, heb unrhyw ddewis arall ar gael.
- Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai canolfannau allu cyrchu cymwysterau TGAU gan nifer o **wahanol gyrrff dyfarnu**.
- Ystyriwyd bod **cyfathrebu effeithiol** trwy gydol y broses yn bwysig, er mwyn sicrhau bod **pawb yn ymwybodol o'r newidiadau** a'r opsiynau o ran cymwysterau sydd ar gael.
  - **Dylid ymgynghori â grwpiau allweddol**, gan gynnwys ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, ochr yn ochr â datblygu cynigion manwl.
- Dywedodd ymatebwyr fod yn rhaid i **ddigon o amser ac arian** fod ar gael er mwyn ymgymryd â'r paratodau angenrheidiol.
- Codwyd pryder ynghylch y **llwyth gwaith ychwanegol** y byddai gweithredu'r cynigion yn ei greu i ymarferwyr.
- Roedd ymgorffori'r **Gymraeg fel sgil ym mhob cymhwyster newydd neu ddiwygiedig** yn cael ei ystyried yn bwysig.
  - Fodd bynnag, nododd ymatebwyr y gallai sicrhau **cymhwysedd wrth ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg** fod yn heriol (ni roddodd yr ymatebwyr fanylion pellach am y cymhwysedd yr oeddent yn ystyried i fod yn ofynnol).
- Teimlai ymatebwyr pe bai **ymddiriedaeth** mewn canolfannau i **asesu a chofnodi marciau yn gywir**, byddai maint y **cymedroli a fyddai'n ofynnol yn fach iawn**.


## Effeithiau ar y Gymraeg

**A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**



Atebodd cyfanswm o 294 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; dywedodd 45% eu bod yn ansicr, dywedodd 27% y byddai effaith gadarnhaol a dywedodd 23% y byddai effaith negyddol.

**A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) mewn perthynas â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?**



Atebodd cyfanswm o 281 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; dywedodd 49% eu bod yn ansicr, dywedodd 18% y byddai effaith gadarnhaol a dywedodd 25% y byddai effaith negyddol.

Rhoddodd cyfanswm o 80 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cyntaf o'r cwestiynau hyn a rhoddodd 50 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r ail gwestiwn. Y themâu canlynol a godwyd amlaf ar draws y ddau gwestiwn hyn.

Dywedodd ymatebwyr y byddai cymwysterau yn Gymraeg a Saesneg yn:


- Sicrhau bod gan ddysgwyr i gyd:
  - **brofiad addysgol ehangach;**
  - **fynediad at ystod eang o gymwysterau;**
  - yr hawl i gael eu hasesu yn eu **dewis iaith;** a
  - chyfleoedd i **wella dilyniant** ar ôl cwblhau addysg orfodol.
- Sicrhau dyfodol y Gymraeg.
- Gwarantu cynhyrchu adnoddau'n fwy effeithiol pe bai cymwysterau dwyieithog yn cael eu **sefydlu o'r cychwyn cyntaf.**

Nododd ymatebwyr hefyd syniadau neu faterion i'w hystyried, fel:

- Gallai dysgwyr fod dan anfantais os yw **adnoddau Cymraeg yn brin** o ran argaeledd ac ansawdd.
- Hyd nes y bydd **mwyr o ymarferwyr** sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, byddai'r effaith ar dwf y Gymraeg yn fach iawn.
- Yr angen i sicrhau **cynwysoldeb** trwy beidio â chyfyngu dysgwyr i un iaith.
  - Gall diffyg gallu yn y Gymraeg mewn cyrff dyfarnu olygu na fyddant yn cynnig cymwysterau dwyieithog. O ganlyniad, efallai na fydd dysgwyr yn gallu cyrchu rhai cymwysterau cyfrwng Cymraeg mewn **meysydd arbenigol** penodol.
- **Diffyg posibl o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg** mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch.
- Yr angen i sicrhau **cyllid cyfartal** ar gyfer cymwysterau cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

## Effeithiau ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?



Atebodd cyfanswm o 278 o ymatebwyr y cwestiwn hwn; dywedodd 54% eu bod yn ansicr, dywedodd 17% y byddai effaith gadarnhaol a dywedodd 24% y byddai effaith negyddol. Rhoddodd cyfanswm o 39 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu barn.

Felly, mae'n bwysig nodi bod y themâu canlynol wedi'u codi amlaf gan nifer gyfyngedig iawn o ymatebwyr.

Dywedodd ymatebwyr:

- Byddai dysgwyr o wahanol gefndiroedd yn gallu arfer eu **rhyddid i ddewis a gwireddu eu potensial llawn**.

Nododd ymatebwyr hefyd syniadau neu faterion i'w hystyried, fel:

- Yr angen i gynnig **dewis eang o gymwysterau sy'n gyraeddadwy** i wahanol ddysgwyr yn 16 oed er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bawb.
- Eu cred bod cynhwysiant effeithiol yn gofyn am **ymgysylltiad gweithredol** â'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr.
- Yr angen i sicrhau darpariaeth ar gyfer **dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol**.
- Ni ddylid o reidrwydd ddehongli galw isel ar gyfer cymhwyster fel diffyg angen.
- Yr angen i ystyried **Addysg Hawliau Dynol** i sicrhau bod Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol a domestig.

## 7. Sylwadau pellach

---

**Os oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y wybodaeth a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon, defnyddiwch y gofod isod.**

Rhoddodd cyfanswm o 109 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

- Mynegodd ymatebwyr **farn gadarnhaol ar y cyfan am y broses ymgynghori** neu'r cynnwys, er bod nifer llai hefyd wedi mynegi peth beirniadaeth.
- Yn ystod y broses ymgynghori a diwygio barhaus, ailbwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd **ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid**.
- Nododd ymatebwyr **gyfle i wneud newidiadau sylweddol** i'r system addysg yng Nghymru, yn enwedig trwy fynd i'r afael â'r diffygion presennol.
- Roeddent hefyd yn teimlo na ddylai diwygio cymwysterau golli golwg ar yr amcan eithaf o gyflawni'r **canlyniad gorau posibl i ddysgwyr**.
- Cododd ymatebwyr bwysigrwydd mynd i'r afael â datblygu **sgiliau ehangach** ymhlith dysgwyr, gan roi rhai awgrymiadau ar sut y gellid cyflawni hyn.
- **Ailadroddodd ymatebwyr hefyd themâu** a godwyd mewn manau eraill yn yr ymgynghoriad.